ymchwil canser cymru
cancer research wales





# Dip neu Bellter Noddi'r Digwyddiad

Ewch am ddip oer neu nofiwch bellter hir: **Trwy gydol mis Mawrth 2026 – ledled Cymru** AC – ymunwch â ni ar gyfer DIP arbennig wedi'i drefnu ar **28 Mawrth 2026 – Cronfa Ddŵr Llanisien, Caerdydd**

Y mis Mawrth hwn, rydym yn herio ein cefnogwyr i wneud sblash a gwneud gwahaniaeth!

Gallant naill ai ymuno â ni am ddigwyddiad wyneb-yn-wyneb yng Nghronfa Ddŵr Llanisien, lle byddant yn mentro dip dŵr oer i gael eu calonnau'n curo'n gyflymach a'u ffrindiau i roi rhoddion.

Os nad ydynt yn lleol i'r digwyddiad, gallant fynd i'r dŵr a nofio Pellter dewisol bob dydd, bob wythnos neu mewn un sesiwn nofio bersonol, hir neu gymryd rhan yn eu Dip Dŵr Oer eu hunain yn ystod y mis.

Rydym yn gwybod bod nofio mewn dŵr oer yn weithgaredd sy'n tyfu'n gyflym. Gyda'r cefnogwyr ffyddlon a chynyddol sy'n angerddol am ariannu ymchwil canser yng Nghymru, credwn fod hwn yn gyfle gwych i noddi'r digwyddiad ac alinio'ch brand mewn ffordd gadarnhaol.

Bydd y digwyddiad hwn nid yn unig yn codi arian sy'n achub bywydau ar gyfer Ymchwil Canser Cymru, bydd hefyd yn ceisio gwella lles corfforol a meddyliol y cyfranogwyr.

**Manteision corfforol:**

**-Lleihau llid a phoen**
**-Gwella cylchrediad y gwaed**
**-Rhoi hwb i'r metaboledd**
**-Cryfhau'r system imiwnedd**

**Manteision meddyliol:**

**-Gwella'r hwyliau**
**-Lleihau straen**
**-Cynyddu craffter**

# Cyfleoedd a manteision noddi

## ** PRIF NODDWR 'GWNEWCH SBLASH' £1,200 (A TAW)

- Logo i'w weld ar holl ddeunyddiau'r digwyddiad ar-lein, yn dweud 'Digwyddiad wedi'i noddi'n garedig gan'
- Logo wedi'i ychwanegu at ein platfform codi arian Dip neu Bellter, sef 'Enthuse'
- Cyhoeddiad o'ch cefnogaeth ar ein sianeli cyfryngau cymdeithasol a'ch logo i'w weld mewn postiadau pellach wrth hyrwyddo'r digwyddiad
- Cyfle i arddangos 2x faner godi'r cwmni wrth y gronfa ddŵr
- 5 lle i'ch tîm gymryd rhan yn ein digwyddiad Dip
- Gostyngiad o 15% ar docynnau ychwanegol ar gyfer y digwyddiad Dip

**Os yw nawdd unigryw o'r digwyddiad hwn yn apelio atoch ond y tu hwnt i'ch cyllideb, siaradwch â ni am greu pecyn hyblyg sy'n fwy addas i chi.

## EICH BRAND CHI YN CYRRAEDD EIN CYNULLEIDFA NI

Bydd cefnogaeth hael eich cwmni yn cael ei hamlygu i bawb sy'n cymryd rhan, yn ogystal â'u ffrindiau a theulu a allai fod yn eu cefnogi. Bydd hefyd yn cael ei hybu ar ein gwefan, ein cyfryngau cymdeithasol a'n platfform codi arian (Enthuse).

# Eich gwaddol parhaol mewn ymchwil canser

Yn ogystal â'n helpu i rannu adeg arbennig a meithrin perthnasoedd parhaus â phobl y mae canser wedi effeithio ar eu bywydau am byth, bydd eich nawdd yn golygu ein bod yn buddsoddi hyd yn oed mwy o arian mewn ymchwil canser o safon fyd eang.

Pan fydd yn effeithio ar 1 o bob 2 ohonom, does dim amheuaeth y bydd eich cwsmeriaid neu gleientiaid wedi caru rhywun â chanser neu golli rhywun i ganser. Bydd eich gweld yn cefnogi'r digwyddiad hwn yn hael yn golygu llawer iddynt ac yn profi ymhellach pan eich bod yn fusnes dibynadwy i weithio ag ef.

Mae'r elusen wedi buddsoddi dros £35 miliwn i oresgyn ffiniau ymchwil i gyfraddau goroesi canser yng Nghymru. Eleni, rydym wedi cael mwy o geisiadau ar gyfer ein galwadau ymchwil a ariennir nag erioed a byddem wrth ein bodd yn gallu ariannu mwy, ond gallwn ond gwneud hyn â mwy o fuddsoddiad yn ein hymgyrchoedd codi arian, trwy ddigwyddiadau fel Dip neu Bellter a chefnogaeth gan gwmnïau fel eich un chi.

Gallwch chi chwarae rôl allweddol mewn cyflymu ymchwil sy'n achub bywydau, gwella gofal i gleifion a gweithio tuag at ddyfodol lle nad yw canser yn difrodi teuluoedd yng Nghymru mwyach.

Diolch i chi am eich ystyriaeth ac edrychwn ymlaen at drafod sut gallai hyn gyd-fynd ag anghenion eich busnes a'ch nodau Cyfrifoldeb Cymdeithasol Corfforaethol orau.

Cysylltwch â mi ar y manylion isod i wybod mwy:
Nicole Quirk
Rheolwr Codi Arian
nicole.quirk@cancerresearchwales.org.uk
07307339360

Engraifft o bosteri yn dangos lle byddai eich log yn mynd

